# Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol

## Cylch Gorchwyl

| | |
|---|---|
| Adolygwyd: | Ionawr 2025 |
| Cymeradwywyd: | Gorffennaf 2025 |
| Dyddiad Adolygu Nesaf: | Ionawr 2027 |

# Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG)

**Cylch Gorchwyl**

## 1. Diben

Sefydlwyd y Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG) yn 2017 i oruchwylio gweithrediad Cynllun Iechyd Gwaed Cenedlaethol GIG Cymru[1.] Cylch gorchwyl y Cynllun Iechyd Gwaed yw cychwyn a gweithredu arferion gorau yn seiliedig ar drallwyso gwaed er mwyn sicrhau trallwysiadau diogel a phriodol. Mae BHNOG yn gyfrifol am arwain y newidiadau hyn yng Nghymru gan weithio ar y cyd â Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru.

Mae BHNOG yn gorff Cymru gyfan sydd wedi'i awdurdodi gan Lywodraeth Cymru i arwain ar bob mater sy'n ymwneud â'r Cynllun Iechyd Gwaed a materion perthnasol sy'n ymwneud ag iechyd gwaed.

Ym mis Mai 2024 cyhoeddodd yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig (IBI a Cyf) ei adroddiad a'i argymhellion. Derbyniwyd yr argymhellion hyn gan Lywodraeth Cymru, naill ai'n llawn neu mewn egwyddor (yn dibynnu ar y gofyniad cyllido cysylltiedig), ac mae agweddau sy'n ymwneud ag iechyd gwaed wedi'u cynnwys ar ei rhan o fewn cylch gorchwyl BHNOG.

## 2. Nod

Nod BHNOG yw hyrwyddo, hwyluso a gwreiddio'r Cynllun Iechyd Gwaed ac argymhellion yr IBI sy'n ymwneud ag iechyd gwaed mewn ymarfer, a hynny mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr o'r Byrddau Iechyd ac arbenigwyr pwnc ledled Cymru.

## 3. Llywodraethu ac Awdurdod Dirprwyedig

3.1 Mae BHNOG yn atebol i Lywodraeth Cymru drwy'r Prif Swyddog Meddygol. Bob blwyddyn, bydd yn adrodd i grŵp Cyfarwyddwyr Meddygol Cymru Gyfan fel rhanddeiliad allweddol sydd â'r dasg o oruchwylio a chraffu. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod BHNOG fel grŵp cynghori arbenigol ym maes trallwyso a materion cysylltiedig.

Mae ganddo'r awdurdod i ddatblygu a, gyda chytundeb cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, i weithredu mentrau iechyd gwaed sy'n sicrhau cyflenwad diogel a defnydd priodol o waed yng Nghymru.

Bydd BHNOG yn defnyddio **cyngor** a **sicrwydd** prydlon, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i'w gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau a chyflawni ei gyfrifoldebau trwy ei drefniadau a'i ganlyniadau craidd o ran ansawdd, diogelwch, cynllunio a pherfformiad gofal iechyd. Bydd hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y canlynol:

- Datblygu a gweithredu canllawiau arferion gorau yn seiliedig ar dueddiadau cyfredol a rhai sy'n

dod i'r amlwg ym maes gwyddor trallwyso gwaed

- Hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad mewn archwiliadau/arolygon cenedlaethol, yn y DU a, lle bo'n briodol, yn rhyngwladol
- Cefnogi'r defnydd o ddata archwilio ac offer gwella ansawdd ar gyfer rheoli a defnyddio gwaed ledled Cymru, gan ddarparu gwybodaeth a data i dimau clinigol ar eu perfformiad i atgyfnerthu gwelliant
- Rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru ac i grwpiau arbenigol cenedlaethol eraill ar drallwyso gwaed.
- Integreiddio arferion gorau trallwyso gwaed i bolisïau a mentrau cenedlaethol Cymru Gyfan i ddangos effaith trallwyso gwaed
- Gweithio gyda grwpiau clinigol perthnasol i gefnogi rheolaeth gwaed cleifion unigol ar lwybrau gofal priodol; bydd hyn yn cwmpasu datblygu arferion i gefnogi diogelwch a lleihau'r defnydd o drallwysiadau gwaed y gellir ei osgoi
- Datblygu a gweithredu Strategaeth Addysg Trallwyso Gwaed ar gyfer yr holl staff sy'n ymwneud â'r broses drallwyso ledled Cymru a sicrhau dull cyson o ran yr arfer o drallwyso gwaed

Bydd BHNOG, o ran ei ddarpariaeth o **gyngor** a **sicrwydd**, yn defnyddio dull trionglog lle bo modd i wneud y canlynol:

- Ceisio sicrwydd bod trefniadau llywodraethu wedi'u cynllunio'n briodol ac yn gweithredu'n effeithiol i sicrhau darpariaeth gofal iechyd a gwasanaethau diogel o ansawdd uchel sy'n gysylltiedig â thrallwyso gwaed ac iechyd gwaed;
- Ystyried y goblygiadau ar gyfer ansawdd, diogelwch, canlyniadau/profiad cleifion/rhoddwyr, cynllunio a pherfformiad, gweithlu, cyllid, digidol a llywodraethu gwybodaeth sy'n deillio o:
- ddatblygu'r strategaethau a'r cynlluniau neu rai ei randdeiliaid a'i bartneriaid;
- adroddiadau adolygu/ymchwilio a chamau gweithredu sy'n deillio o waith rheoleiddwyr allanol;
- Monitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Iechyd Gwaed gan sicrhau yr adroddir ar feysydd gwan neu feysydd risg, a meysydd arferion gorau i Lywodraeth Cymru;
- Sicrhau bod prosesau cadarn ar waith i adrodd ar risgiau a phrosesau uwchgyfeirio, a sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi'n weithredol a'u rheoli'n gadarn;
- Sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, a rhoi cleifion, profiad y claf/rhoddwr gwaed, diogelwch a diogelu uwchlaw pob ystyriaeth arall;

- Sicrhau bod y systemau a'r prosesau cywir ar waith ledled Cymru i ddarparu gwasanaethau effeithiol, effeithlon, prydlon a diogel sy'n canolbwyntio ar gleifion/rhoddwyr gwaed;
- Sicrhau bod ethos o ddysgu a gwella ansawdd yn barhaus a diwylliant diogelwch sy'n cefnogi gofal diogel o ansawdd uchel;
- Sicrhau bod yna waith tîm da, cydweithio a gweithio mewn partneriaeth i ddarparu'r canlyniadau gorau posibl i'n dinasyddion;
- Cynghori Llywodraeth Cymru ynghylch dangosyddion allweddol ansawdd, diogelwch a pherfformiad, a fydd yn cael eu hadlewyrchu yn fframwaith perfformiad BHNOG. Asesir y perfformiad yn rheolaidd yn erbyn hyn ac adroddir arno mewn Adroddiadau Blynyddol.

Mae BHNOG yn gyfrifol am lywodraethu a chyfeirio ffrydiau gwaith/gweithgorau allweddol sy'n ofynnol i gyflawni'r Cynllun Iechyd Gwaed.

- Bydd grwpiau ffrydiau gwaith yn cyfarfod yn ôl y gofyn i gyflawni ei nodau.
- Bydd arweinwyr ffrydiau gwaith yn cael eu penodi gan Gadeirydd BHNOG a byddant yn gwasanaethu am o leiaf 12 mis yn y swydd.
- Bydd arweinwyr y ffrydiau gwaith yn gyfrifol am gyflwyno adroddiadau cynnydd ym mhob cyfarfod BHNOG a bydd canlyniadau'r ffrydiau gwaith yn seiliedig ar gylch adolygu 12 mis.

### 3.2 Grwpiau Ffrydiau Gwaith/Gweithgorau BHNOG

Mae BHNOG wedi sefydlu'r canlynol:

- Grŵp Risg Trallwyso Gwaed (TRG) (gweithgor SHOT gynt)
- Grŵp Strategaeth Addysg
- Grŵp Prinder Gwaed
- Defnydd priodol o gelloedd coch O D negatif (OD Neg) a Gwaedlif Mawr
- Defnydd Priodol o Blatennau
- Rheoli Anemia
- Arbed Celloedd yn ystod Llawdriniaeth (ICS)

### 3.3 Pwyllgorau Cysylltiedig

Bydd un llwybr allweddol tuag at ddylanwadu ar arfer drwy Fyrddau Iechyd. Bydd yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd gael Pwyllgor Trallwyso Gwaed Bwrdd Iechyd (HBTC) sydd â'r awdurdod i gymryd y camau

angenrheidiol i wella arferion trallwyso. Fel arfer, bydd y Pwyllgor Trallwyso Gwaed Bwrdd Iechyd (HBTC) yn gweithredu gyda chefnogaeth un neu fwy o Bwyllgorau Trallwyso Gwaed Ysbytai (HTC)

Yn benodol, dylai'r HBTC a'r HTC sicrhau'r canlynol:

- Cynnwys y Cynllun Iechyd Gwaed fel amcanion craidd yn eu Cylch Gorchwyl
- Bod yr HBTC yn cysylltu'n uniongyrchol â BHNOG trwy Gadeirydd HBTC neu gynrychiolydd enwebedig.
- Goruchwylio gweithrediad y Cynllun Iechyd Gwaed ar ran eu Bwrdd Iechyd
- Cael strwythur adrodd a llywodraethu wedi'i ddiffinio'n glir hyd at lefel y Bwrdd, a chynnwys y grŵp ansawdd a diogelwch cleifion lleol.
- Gweithio mewn cydweithrediad â BHNOG i gychwyn a gwreiddio arferion gorau trallwyso gwaed ledled Cymru.

Bydd BHNOG hefyd yn goruchwylio gwaith y pwyllgorau canlynol i gyflawni amcanion y Cynllun Iechyd Gwaed:

- Grŵp Ymarferwyr Trallwyso Cymru Gyfan (AWTPG)
- Grŵp Rheolwyr Labordy Trallwyso Cymru Gyfan (AWTLMG)

**Nodyn**: darperir crynodeb cyffredinol o Fframwaith Llywodraethu BHNOG yn **Atodiad 1**.

Mae manylion pellach ynghylch pwerau dirprwyedig ac awdurdod y Grŵp Risg Trallwyso Gwaed a'r Grŵp Strategaeth Addysg wedi'u nodi yng Nghylch Gorchwyl pob un o'r gweithgorau.

## 4. Aelodaeth

4.1 Bydd **cadeirydd BHNOG** yn cael ei ethol o blith yr aelodau, gan yr aelodau. Bydd y Prif Swyddog Meddygol yn cymeradwyo'r dewis hwn ar ran Llywodraeth Cymru. Bydd Dirprwy Gadeirydd hefyd yn cael ei ddewis o blith aelodau'r grŵp.

4.2 **Aelodau:**

- Cadeirydd
- Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru
- Cynrychiolydd Cyfarwyddwr Meddygol
- Cadeirydd Grŵp Cynghori Arbenigol Haematoleg (SAG)

- Cynrychiolydd Gofal Sylfaenol
- Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwaed Cymru
- Cynrychiolydd Cyfarwyddwyr Nyrsio
- Cynrychiolydd Annibynnol
- Cyfarwyddwr Meddygol Gwasanaeth Gwaed Cymru/Ymgynghorydd â chyfrifoldeb am reoli gwaed cleifion, Gwasanaeth Gwaed Cymru
- Cadeiryddion Pwyllgor Trallwyso Gwaed Ysbytai o bob Bwrdd Iechyd, neu ddewis arall a enwebwyd
- Cynrychiolydd Rhwydwaith Trawma De Cymru (SWTN)
- Cynrychiolydd Gofal Critigol
- Arweinwyr Ffrwd Waith BHNOG
- Cadeiryddion Gweithgorau BHNOG
- Cynrychiolydd Rheolwyr Labordy Trallwyso Gwaed
- Cynrychiolydd Ymarferwyr Trallwyso
- Pennaeth y Tîm Iechyd Gwaed
- Cynrychiolydd Obstetreg a Gynaecoleg
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC)
- Cynrychiolydd Iechyd Cyhoeddus Cymru

## 4.3 Trwy wahoddiad

Gall Cadeirydd y Pwyllgor estyn gwahoddiad i unigolion o’r tu mewn neu’r tu allan i’r sefydliad, gan ystyried y materion dan sylw ym mhob cyfarfod.

Mae’r Pwyllgor yn croesawu presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor gan staff o’r Sefydliad, cynrychiolwyr sefydliadau annibynnol a phartneriaeth a’n rheolyddion gan gynnwys:

- Cynrychiolydd Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru
- Gwasanaethau gwaed eraill yn y DU

## 4.4 Cymorth Gweinyddol

Gwasanaeth Gwaed Cymru sy’n cynnal BHNOG ac felly mae Tîm Iechyd Gwaed Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cefnogi gweinyddiaeth y pwyllgor a'i gyfarfodydd. Mae'r trefniadau hyn yn caniatáu ar gyfer trefnu cyfarfodydd; dogfennu a chynnal cofnodion o'r holl gyfarfodydd a gynhelir; a chyfathrebu effeithiol ar ran y pwyllgor.

Cyhoeddir agenda'r cyfarfod a'r papurau ategol o leiaf wythnos cyn y cyfarfod chwarterol i ganiatáu amser i'w hadolygu a thrwy hynny roi cyfle i drafod/gwneud penderfyniadau yn ystod y cyfarfod.
Ni fydd eitemau agenda ychwanegol yn cael eu hychwanegu ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi cyn y cyfarfod, oni bai eu bod o natur hanfodol.

### 4.5 Penodiadau Aelodau

Y cadeirydd fydd yn pennu aelodaeth BHNOG ar sail argymhellion Gweithgor Gweithredol BHNOG. Bydd yn ystyried cydbwysedd y sgiliau a'r arbenigedd sy'n angenrheidiol i gyflawni cylch gorchwyl y Pwyllgor ac yn amodol ar unrhyw ofynion neu gyfarwyddiadau penodol a wneir gan Lywodraeth Cymru.

Penodir aelodau am uchafswm o 3 blynedd yn olynol cyn adolygu eu rôl ar y Pwyllgor yn ffurfiol. Yn ystod y cyfnod hwn, gall aelod ymddiswyddo neu gael ei ddiswyddo gan y Bwrdd.

Os na all aelod fynd i gyfarfod, dylai dirprwy sydd â'r awdurdod i wneud penderfyniadau fynd yn ei le.

### 4.6 Cymorth i Aelodau'r Pwyllgor

Mae'r Gweithgor Gweithredol (EWG) yn is-grŵp o BHNOG ac mae'n sicrhau bod momentwm amcanion y grŵp yn cael ei gynnal rhwng cyfarfodydd BHNOG. Bydd y Gweithgor Gweithredol yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Bydd ei aelodaeth yn cynnwys y canlynol:

- Cadeirydd BHNOG;
- Ymgynghorydd â chyfrifoldeb am y Cynllun Iechyd Gwaed/Cyfarwyddwr Meddygol Gwasanaeth Gwaed Cymru;
- Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwaed Cymru
- Arweinydd Tîm Iechyd Gwaed
- Cynrychiolydd Cadeirydd Pwyllgor Trallwyso Gwaed

## 5. Amlder Cyfarfodydd

Bydd BHNOG yn cyfarfod o leiaf unwaith bob chwarter a disgwylir i un cyfarfod fod wyneb yn wyneb a'r 3 sy'n weddill drwy TEAMS.
Y Tîm Iechyd Gwaed fydd yn galw'r cyfarfodydd a bydd yn gweithredu ar awdurdod y Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd.

Er mwyn cael cworwm, rhaid i BHNOG, fel gofyniad sylfaenol, gael cynrychiolaeth o blith Byrddau Iechyd, Arbenigwyr Pwnc, Gwasanaeth Gwaed Cymru a Llywodraeth Cymru. Rhaid i o leiaf bedwar Bwrdd Iechyd gael eu cynrychioli, a rhaid cael digon o arbenigedd Arbenigwyr Pwnc i sicrhau bod pob penderfyniad a wneir yn un sy'n seiliedig ar wybodaeth ac ar dystiolaeth.

Pan na fydd cworwm yng nghyfarfodydd BHNOG, yna gellir cario'r penderfyniadau ymlaen i'r cyfarfod nesaf neu gytuno arnynt y tu allan i amserlen y cyfarfodydd, a bod cynrychiolaeth berthnasol yn bresennol.

## 6. Unigolion yn tynnu yn ôl

Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw un neu bob un o'r rheiny sydd fel arfer yn mynychu, ond nad ydynt yn aelodau, i dynnu yn ôl er mwyn hwyluso trafodaeth agored a didwyll ar faterion penodol.

## 7. Perthnasoedd ac Atebolrwyddau BHNOG a'i bwyllgorau/grwpiau

Er bod BHNOG wedi dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgorau ar gyfer arfer swyddogaethau penodol, fel y nodir yn y cylch gorchwyl hwn, mae'n cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol a'r atebolrwydd am sicrhau ansawdd, diogelwch a pherfformiad gofal iechyd i'w ddinasyddion drwy lywodraethu'r sefydliad yn effeithiol.

Mae BHNOG yn uniongyrchol atebol i Lywodraeth Cymru am ei berfformiad wrth arfer y swyddogaethau a nodir yn y cylch gorchwyl hwn.

Bydd BHNOG, trwy ei Gadeirydd a'i aelodau, yn cydweithio'n agos â grwpiau ffrydiau gwaith a gweithgorau'r pwyllgor i roi cyngor a sicrwydd i Lywodraeth Cymru drwy sicrhau:

- cyd-gynllunio a chydlynu ar faterion BHNOG, ffrydiau gwaith a gweithgorau; a
- rhannu gwybodaeth

wrth wneud hynny, cyfrannu at integreiddio llywodraethu da ar draws BHNOG a'i randdeiliaid, a sicrhau bod pob ffynhonnell sicrwydd wedi'i hymgorffori yn fframwaith risgiau a sicrwydd cyffredinol BHNOG.

## 8. Trefniadau Adrodd a Sicrwydd

Bydd Cadeirydd BHNOG yn:

- Darparu adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru a Chyfarwyddwyr Meddygol Cymru Gyfan ar weithgarwch y Pwyllgor.
- Dwyn i sylw penodol Llywodraeth Cymru faterion arwyddocaol sydd dan ystyriaeth gan y Pwyllgor;

## 9. Adolygiad

Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu ynghyd â Rhaglen Waith y Pwyllgorau yn flynyddol.

## 10. Camau Gweithredu'r Cadeirydd ar Faterion Brys

Weithiau, gall amgylchiadau olygu bod penderfyniadau a wneir fel rheol gan BHNOG yn cael eu gwneud rhwng cyfarfodydd wedi'u hamserlennu. O dan yr amgylchiadau hyn, gall Cadeirydd y Pwyllgor, gyda chefnogaeth gweithgor gweithredol BHNOG, ddelio â'r mater ar ran BHNOG. Caiff unrhyw gamau o'r fath eu cofnodi'n ffurfiol a'u hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor i'w hystyried a'u cadarnhau.

Ni ellir cymryd camau gweithredu brys gan y Cadeirydd os oes gan y Cadeirydd ddiddordeb personol neu fudd busnes yn y mater brys y mae angen gwneud penderfyniad arno.

## 11. Cyfeiriadau

1. https://www.llyw.cymru/cynllun-iechyd-gwaed-gig-cymru-whc2017028

**Atodiad 1 – Fframwaith Llywodraethu BHNOG**

